

## ASTUDIAETH ACHOS

### MIRAIN LLWYD ROBERTS

Cydlynnydd Pontio'r Cenedlaethau, Cyngor Gwynedd



## CYDWEITHREDU Â'R DIWYDIANT

Yn ystod fy mlwyddyn fel myfyrwraig KESS 2 ac ers hynny yn gweithio i Gyngor Gwynedd rwyf wedi cael y cyfle i weithio ar sawl prosiect pontio'r cenedlaethau. Y math o gynllun mwyaf cyffredin rwyf wedi gweithio arno yw cynllun rhwng dosbarth mewn ysgol gynradd a trefnu eu bod yn ymweld â chartref gofal neu canolfan gofal dydd lleol. Rwyf hefyd wedi cael cyfle i weithio a phlant uwchradd a phobl ifanc sydd wedi gadael ysgol a hefyd cartrefi gofal y cyngor a rhai preifat. Rwyf wedi cael trefnu prosiectau cymunedol hefyd gan weithio gyda mudiadau o'r trydydd sector. Mae'r dealltwriaeth rwyf wedi gael o'r amryw o sectorau yma yn fuddiol er mwyn mynd ymlaen i gynig gwahanol fathau o brosiectau rhwng gwahanol garfanau o bobl. Mae'r cyfleoedd o weithio gyda'r gwahanol fudiadau hyn fel myfyrwraig ac ar ôl graddio wedi fy natblygu i fel unigolyn.

Pwrpas fy mhrosiect oedd edrych ar yr heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu prosiectau pontio'r cenedlaethau. Teitl yr ymchwil oedd: "Pontio'r bobl a'r gymuned: Y rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu prosiectau pontio'r cenedlaethau gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd". Daeth sawl rhwystr a her i'r amlwg yn ystod yr ymchwil a daethpwyd o hyd i fodel syml er mwyn ceisio cael y gorau o brosiectau pontio'r cenedlaethau yma yng Nghymru. Mae sawl agwedd yn amharu ar y gallu i bontio'r cenedlaethau a llwyddo i drefnu rhaglen sy'n gynaliadwy. Mae'n bwysig cael trefnydd a hwylusydd ar gyfer y prosiectau gan nad ydynt yn fater o rhoi dwy garfan o bobl at ei gilydd. Ond yn ychwanegol mae'n bwysig bod pwysigrwydd pontio'r cenedlaethau yn cael ei ddeall ar lefel personol, cymunedol a chenedlaethol er mwyn i brosiectau barhau. Trwy ddeall gwerth y math yma o waith bydd cynlluniau yn cael ei cynnal yn amlach a dros gyfnodau hirach.

Bellach, ers blwyddyn rwyf yn gweithio i Gyngor Gwynedd fel Cydlynnydd Pontio'r Cenedlaethau fel rhan o rwydwaith o brosiectau sydd wedi ei ariannu drwy Gronfa Gofal Integredig (ICF), Llywodraeth Cymru ac mae'n gronfa sydd yn hybu syniadau newydd wrth ddatblygu'r maes iechyd a gofal i'r dyfodol. Mae'n braf cael y cyfle i roi canlyniadau fy ymchwil ar waith.

Cyngor Gwynedd oedd hefyd fy mhartneriaid busnes yn ystod fy ngradd meistr ac mae wedi bod o fudd mawr medru parhau gyda'r gwaith da wnaethpwyd yn ystod fy mlwyddyn fel myfyrwraig ymchwil trwy weithio llawn amser gyda hwy. Mae'r gefnogaeth i'r prosiect gan y cwmni wedi bod yn fuddiol.

Rwyf yn edrych ymlaen i barhau gyda'r prosiect pontio'r cenedlaethau a'r heriau newydd sydd ynghlwm a'r sefyllfa bresennol lle nad oes modd parhau gyda'r prosiectau wyneb yn wyneb am y tro. Mae'n gyfle i feddwl tu hwnt i'r bocs ac arbrofi gyda dulliau digidol a newydd o bontio'r cenedlaethau.

Mae pontio'r cenedlaethau yn gyfle i sefydlu perthnasau arbennig rhwng pobl o bob oedran a dealltwriaeth o wahanol cenedloedd o'i gilydd. Rwyf wedi gweld perthnasau arbennig yn ffurfio rhwng plant cynradd a rheiny mewn gofal dydd, rhwng plant uwchradd a phobl yn y gymuned a myfyrwyr ac unigolion mewn cartrefi gofal. Mae'r amrediad yma o berthnasau yn ffurfio yn pwysleisio sut bod pontio'r cenedlaethau yn gallu digwydd rhwng unrhyw un.



## UCHAFBWYNTIAU CYFRANOGIAD KESS 2



Cefais sawl profiad y byddaf yn ei drysori am amser maith yn ystod fy nghyfnod yn astudio gyda KESS 2. Un o'r profiadau hynny oedd cael trefnu cynhadledd ar Bontio'r Cenedlaethau ym Mangor ar y cyd a fy ngoruchulwraig Dr Catrin Hedd Jones, sydd hefyd yn gyn-fyfyrwraig KESS, fy mhartner busnes Cyngor Gwynedd a Grwp Cynefin. Roedd yn brofiad i'w drysori ac yn gyfle arbennig imi rwydweithio a rhai a oedd diddordeb yn y maes a'r rheiny oedd yn gweithio yn y maes o ddydd i ddydd ar draws Cymru a thu hwnt.



Cefais y cyfle i fynychu sawl cynhadledd o rai yng Nghymru, i un yng Nglasgow yn yr Alban i Portland yn yr UDA. Yn sicr, un o fy uchafbwyntiau fel myfyrwraig meistr KESS 2 oedd mynychu y gynhadledd Generations United yn Portland, UDA. Roedd yn brofiad anhygoel cael dysgu gan academyddion ac ymarferwyr o bedwar ban byd ac yn brofiad cael cyflwyno poster ac mae'n braf bod wedi gallu creu cysylltiadau rwyf yn parhau i gadw mewn cysylltiad gyda hwy.

Gobeithiaf weithio yn ystod y misoedd nesaf ar bapur ar gyfer Gwerddon a hefyd journal penodol ar gyfer pontio'r cenedlaethau. Bydd hyn yn gyfle imi ail edrych ar fy nghanfyddiadau.

Menter sgiliau lefel uwch Cymru gyfan sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Bangor ar ran y sector AU yng Nghymru yw Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS 2). Mae'n cael ei hariannu'n rhannol gan raglen gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Am ragor o wybodaeth am sut y gallai eich sefydliad elwa o gymryd rhan yn KESS 2, cysylltwch â thîm canolog KESS 2 ym Mangor ar: [kess2@bangor.ac.uk](mailto:kess2@bangor.ac.uk)